JAMES (HOPKIN-JAMES o 1910 ymlaen), LEMUEL JOHN HOPKIN ('Hopcyn '; 1874 - 1937), clerigwr a hynafiaethydd

Enw: Lemuel John Hopkin James
Ffugenw: Hopcyn
Dyddiad geni: 1874
Dyddiad marw: 1937
Rhiant: Margaret James
Rhiant: John James
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr a hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 2 Medi 1874 yn Nhreorci, yn fab i John a Margaret James, ac yn ddisgynnydd (yn y bumed genhedlaeth) o'r bardd Lewis Hopkin. O ysgol y Bont-faen aeth yn 1893 i Goleg Queens ' yng Nghaergrawnt, a graddio yn 1896. Ymhell wedyn, ymgorfforodd yng Ngholeg y Drindod, Dulyn, a graddio yno'n LL.B. (1920) a LL.D. (1921); yr oedd yn F.S.A. Ar ôl ei urddo (1897, 1898), bu'n gurad ym Mrynbuga (1897), Llangynwyd (1898), Maendy, Casnewydd-ar-Wysg (1901), a Llangatwg y Barri (1906). Bu wedyn yn ficer Ystrad Mynach (1906-17), yn rheithor y Bont-faen a'r eglwysi cysylltiedig (1917-24), yn ficer S. Martin's, Caerdydd (1924-34), ac yn ficer Llanynys a Llanychan yn Nyffryn Clwyd (1934-5). Yr oedd yn ganon yn Llandaf er 1926, a bu'n ganghellor yr eglwys honno o 1930 hyd ei farwolaeth, 11 Ebrill 1937. Yr oedd yn sgrifennwr diwyd dros ben, eithr o'i ysgrifau a'i lyfrau niferus (ar bynciau agos at ei swydd fel clerigwr y mae a fynno'r rhan fwyaf ohonynt) ni ellir yma enwi ond y pedwar sy'n fwyaf eu gwerth i chwilotwyr, sef (*a*) *Hopkiniaid Morganwg*, 1909; (*b*) *Hen Gwndidau*, casgliad a olygwyd ganddo ef a T. C. Evans ('Cadrawd'), 1910; (*c*) *Old Cowbridge*, 1922; (*ch*) *The Celtic Gospels*, 1934.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Venn, *Alumni Cantabrigienses*

Hopkiniaid Morganwg (1909), 377-81

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732606

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu